

Atodiad A: Crynodeb o argymhellion CLAIR ac ymateb y Llywodraeth

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 1	Bwrdd Ymgynghorol	
Pennod 15 CLAIR	<p>Dylid pennu Bwrdd Ymgynghorol annibynnol i roi cyngor i'r Arglwydd Ganghellor yn rheolaidd ar drefniadau ar gyfer cyflawni cymorth cyfreithiol troseddol. Dylai cylch gwaith y corff gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">(i) cyfranogiad rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys yr Heddlu, CPS a'r Llysoedd, yn ogystal â darparwyr, i feithrin tryloywder a dealltwriaeth o sut mae penderfyniadau ar gymorth cyfreithiol troseddol yn effeithio ar y system gyfiawnder troseddol ehangach, ac fel arall;(ii) ystyriaeth barhaus o'r system gymorth cyfreithiol troseddol, gan adnabod problemau penodol wrth iddynt ddod i'r amlwg, a diwygiadau pellach posibl, gan gynnwys ffyrdd newydd o weithio;(iii) rhoi cyngor i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) ar y data sydd ei angen i sicrhau bod cymorth cyfreithiol troseddol yn effeithlon ac yn ymatebol, ym mhob ardal yng Nghymru a Lloegr, a (iv) a meithrin amrywiaeth a chyfle cyfartal	<p>Mae'r Llywodraeth yn cynnig sefydlu fforwm ymgysylltu i ddwyn partneriaid CJS ynghyd i ddeall materion polisi sy'n datblygu ac effeithiau'r newidiadau yn y CJS ar amddiffyniad troseddol.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 2	Dod o hyd i ddatrysiadau lleol	
Pennod 15 CLAIR	Dylai'r MOJ annog a hwyluso trefniadau lleol, waeth os yw hynny drwy Fyrddau Cyfiawnder Troseddol neu fel arall, ar gyfer gwella llinellau cyfathrebu rhwng yr amddiffyniad, yr Heddlu, CPS a'r Llysoedd, gyda'r nod o ddeall problemau cyffredin a dod o hyd i ddatrysiadau er budd y system gyfiawnder troseddol	LCJBau yw'r ffordd orau i'r MOJ "annog a hwyluso" cydweithredu lleol gwell rhwng cymunedau amddiffyn a phartneriaid CJS. Bydd cardiau sgorio yn helpu i adfywio LCJBau, gan eu galluogi nhw i graffu data yn eu hardaloedd lleol a thaclo materion perfformiad; bydd ymgysylltiad ag amddiffyn yn ychwanegu gwerth at y sgysiau hyn. Fel cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, bydd yr Arglwydd Ganghellor yn ysgrifennu at Gadeiryddion LCJB ar ddiwrnod cyhoeddi'r ymateb, yn gofyn iddynt annog amddiffyniad lleol a phresenoldeb Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r MOJ wedi ymrwymo i ddatblygu opsiynau i roi LCJBau mewn sefyllfa statudol ac egluro eu haelodaeth, ochr yn ochr â chryfhau canllawiau LCJB presennol. Gall y gwaith hwn gael ei ddefnyddio bellach i hyrwyddo rhagor o gynrychiolaeth amddiffyn ar Fyrddau.

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 3	Anghenion heb eu bodloni a ffyrdd newydd o weithio	Grantiau hyfforddiant
Pennod 15 CLAIR	<p>Dylai'r MOJ ystyried, ar y cyd â'r Bwrdd Ymgynghorol fel sy'n briodol, y raddfa o anghenion heb eu bodloni am gymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru neu Lloegr, er enghraifft o ran ardaloedd daearyddol penodol (waeth os ydynt yn lleoliadau gwledig, trefi bach neu ganol dinasoedd), mathau penodol o ddefnyddwyr (megis pobl ifanc a ddrwgdybir/diffynyddion, neu rai â phroblemau iechyd meddwl), cymunedau penodol (megis rhai o gefndir lleiafrif ethnig) neu feysydd gwaith penodol (megis apeliadau neu gyfraith carcharau); ac os felly, sut y dylid bodloni'r anghenion hynny, yn enwedig gan grantiau cymorth i sefydliadau nid er elw neu rai tebyg, neu fesurau eraill, gyda'r nod o beilota cynlluniau. Dylai ystyriaeth o'r fath cynnwys ffyrdd posibl newydd o weithio fel y'i nodir ym Mhennod 15, gan gynnwys "modelau holistaidd" sy'n berthnasol i anghenion troseddol a sifig, a chanolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr, dylai MOJ ystyried grantiau hyfforddiant i gefnogi mwy o hyfforddeion mewn cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol.</p>	<p>Ymgynghori ac ystyried a fyddai ariannu grantiau hyfforddiant yn helpu cwmnïau o gyfreithwyr i recriwtio a chadw staff, a'r ffordd orau i dargedu menter o'r fath i gefnogi pobl o'r cefndiroedd hynny. Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn barn a fyddai ariannu achrediad i gyfreithwyr yn ennill hawliau uwch i'r gynulleidfa.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 4	Data	
Pennod 15 CLAIR	<p>Dylai'r MOJ fuddsoddi i a gwella'n sylweddol argaeledd data i sicrhau ffordd well o asesu effeithlonrwydd, costau ac effeithiolrwydd cymorth cyfreithiol troseddol a'r cynlluniau ffioedd amrywiol, gan gynnwys effaith penderfyniadau 156 mewn meysydd gwahanol o'r system gyfiawnder troseddol ar ddarpariaeth a phris cymorth cyfreithiol troseddol.</p>	<p>Rydym yn ceisio barn ar gasglu data'n well yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.</p> <p>Yn amodol ar ei sefydlu, dylai'r bwrdd ymgynghorol gasglu data gwell gan y proffesiynau</p>
Argymhelliad 5	Cynnydd cyffredinol i dâl cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol	
Penodau 6 a 7 CLAIR	<p>Dylid sicrhau cynnydd sylweddol yn y tâl sydd ar gael i gwmnïau sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, er mwyn galluogi cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol i fuddsoddi i recriwtio, cystadlu am dalent, cynnal ansawdd, darparu hyfforddiant a sicrhau bod staff yn aros yn eu swyddi.</p> <p>Mae angen cyllid ychwanegol o leiaf £100 miliwn y flwyddyn (cynnydd cyffredinol oddeutu 15%), nid yn unig i alluogi cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol i gynnig tâl fel y CPS ac i sicrhau cyfle cyfartal. Er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a diogelu'r trethdalwr, dylai cynnydd o'r fath fod ochr yn ochr â diwygiadau i'r strwythur tâl fel y'i nodir isod. Cynnig tâl sydd yn lled debyg i'r CPS, a sicrhau cyfle cyfartal.</p> <p>Er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac amddiffyn y trethdalwr, dylai cynnydd o'r fath fod ochr yn ochr â diwygiadau i'r strwythur tâl a nodir isod</p>	<p>Wedi'i drafod yn unol â chynlluniau ffioedd unigol isod.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 6	Diwygiad strwythurol o'r cynlluniau ffioedd sy'n bennaf yn effeithio ar gwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol	
Pennod 7 CLAIR	<p>(i) Dylai'r egwyddorion cyffredinol o ran diwygio cynlluniau tâl cyfreithwyr gynnwys tâl priodol am waith a wneir</p> <p>(ii) gwaredu cymhellion gwrthnysig a</p> <p>(iii) lleihau costau gweinyddu.</p> <p>Y cyfaddawd gorau sydd ar gael o ran bodloni'r amcanion hyn yw'r cynllun tâl presennol ar gyfer y Llys Ynadon, sydd o safon is, safon uwch, a ffioedd ansafonol, gan olygu bod y rhan fwyaf o waith arferol yn gallu cael ei wneud am bris sefydlog, gan alluogi hawliadau rhesymol am achosion mwy cymhleth. Rwy'n argymhell y dylai'r cynllun Llys Ynadon fod y model sylfaenol ar gyfer gwaith cymorth cyfreithiol troseddol yng ngorsaf yr heddlu, ac y dylai'r model tâl adlewyrchu sefyllfa uwch y cyfreithiwr lle bo'n briodol. Dylai'r tâl hefyd gymell perchnogaeth dros achosion, ymgysylltiad cynnar gyda'r heddlu/CPS a gwaith paratoi priodol. Mewn egwyddor, ni ddylai pob prif elfen ar y gwaith, sef yr orsaf heddlu, y Llys Ynadon a Llys y Goron, ddibynnu ar draws-gymhorthdal o waith arall.</p>	Wedi'i drafod yn unol â chynlluniau ffioedd unigol isod.

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 7	Tâl gorsafoedd heddlu	
Pennod 8 CLAIR	<p>Dylid ailstrwythuro'r tâl sy'n daladwy i gyngor a chymorth gorsafoedd heddlu yn unol â chynllun tâl y Llys Ynadon, sef ffi safonol is, ffi safonol uwch, a ffi ansafonol mewn achosion eithriadol, er mwyn adlewyrchu'n well amgylchiadau gwahanol achosion, gwella ansawdd, a sicrhau bod cyngor a chymorth priodol ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylai ailstrwythuro o'r fath fod yn seiliedig ar y materion a nodir ym mharagraff 2(3) Atodlen 4 sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gyfrifo'r ffi ddianc, ond hefyd i adlewyrchu sefyllfa uwch y cyfreithiwr sydd ynghlwm.</p> <p>Dylai'r cyfraddau tâl gynyddu yn ôl yr argymhelliad uchod, a dylid, cyn gynted ag sy'n ymarferol, dileu'n raddol y cyfraddau gwahanol ar sail gorsafoedd heddlu unigol.</p>	<p>Rydym yn cynnig cynnydd o 15% i ffioedd gorsafoedd heddlu.</p> <p>Rydym yn ymgynghori ar y newid i'r cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu yn y tymor hirach i gynnig tâl gwell drwy wahaniaethu rhwng cymhlethdod achosion tebyg. Rydym wedi cyflwyno dau opsiwn yn yr ymgynghoriad, un ai argymhelliad CLAIR ar gyfer diwygio (ffioedd safonol, yn unol â chynllun ffioedd y Llys ynadon) neu addasu'r ddarpariaeth ffioedd dianc. Credwn y gallai'r naill opsiwn neu'r llall gyflawni'r nodau yn CLAIR. Cynigiwn y dylai unrhyw gynllun wedi'i ddiwygio gael ei ddylunio ar raddfeydd tebyg. Yn amodol ar ddatblygiad polisi pellach a chasglu data, rydym yn cynnig y bydd y cynllun wedi'i ddiwygio'n cael ei ddylunio ar sail cost-niwtral.</p> <p>Rydym hefyd yn ymgynghori ar effaith cyflwyno pwysoliad ar gyfer uwch ymarferwyr i gymryd achosion cymhleth.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 8	Agweddau eraill ar waith y gorsafoedd heddlu	
Pennod 8 CLAIR	<p>Ar y cyd â'r Bwrdd Ymgynghorol fel sy'n briodol, ac mewn cydweithrediad gyda'r heddlu a'r Swyddfa Gartref, dylai'r MOJ ddechrau ar astudiaeth fanwl o weithrediad ac effeithiolrwydd cyngor a chymorth yn yr orsaf heddlu, gan gynnwys casglu data manylach, er enghraifft a oes modd gwella faint o'r rhai a ddrwgdybir sy'n derbyn cyngor o'r fath, ansawdd y gwasanaeth a roddir, y dull cyflawni (wyneb yn wyneb neu o bell), y posibilrwydd o leoli cyfreithwyr ar ddyletswydd mewn gorsafoedd heddlu mwy, defnyddio cynrychiolwyr achrededig a'u goruchwyliaeth effeithiol, a gwelliannau i hyfforddiant a/neu achrediad cyffredinol, ac yn enwedig ynghylch pobl ifanc neu agored i niwed a ddrwgdybir, a'r rhai o gefndir lleiafrif ethnig.</p>	<p>Y Llywodraeth yn gweithio gyda'r heddlu i dreialu system optio allan, yn enwedig i bobl ifanc a ddrwgdybir. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori i geisio barn ar sut gellid cyflwyno hyn ymhellach a deall mentrau eraill y gallai'r sector fod yn eu rhoi ar waith i wella defnydd.</p> <p>Bydd yr MOJ yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr a'r sector i ddarparu ar reoli ansawdd, ac yn ymgynghori ar sut i sicrhau nad yw mesurau rheoli ansawdd yn feichus.</p> <p>Mae'r Llywodraeth hefyd yn archwilio ffyrdd newydd o ddarparu cyngor mewn gorsafoedd heddlu a chynigiodd dreialu cyngor o bell drwy'r PDS.</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn cynnig fod y bwrdd ymgynghorol yn ystyried materion am achrediad cynrychiolwyr a lleoli cyfreithwyr ar ddyletswydd gan gynnwys presenoldeb yn y swyddfa a gorsafoedd heddlu.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 9	Ymgysylltiad cyn cyhuddiad	
Pennod 9 CLAIR	<p>Dylid talu ymgysylltiad cyn cyhuddiad. Dylid talu am y gwaith paratoi sydd ei angen i bennu a oes angen ymgysylltiad cyn cyhuddiad, waeth os bydd ymgysylltiad cyn cyhuddiad yn digwydd ai peidio.</p> <p>Yn yr un modd, dylid talu am waith sydd ei angen yn rhesymol er mwyn cynnal cyswllt gyda'r heddlu a/neu'r cleient yn y cyfnod rhwng yr arestiad cychwynnol/cyfweliad gyda'r heddlu a'r penderfyniad cyhuddiad, waeth beth yw graddfa unrhyw ymgysylltiad cyn cyhuddiad, a waeth os oes cyhuddiad ai peidio.</p> <p>Dylid trin y tâl fel estyniad i'r cynllun gorsaf heddlu, fel sydd wedi'i ddiwygio fel sydd wedi'i argymell uchod.</p>	<p>Rydym yn cynnig caniatáu tâl ar gyfer gwaith paratoi ac yn ceisio eich barn ar sut gellid hawlio hyn.</p> <p>Rydym hefyd yn cynnig diwygio'r Prawf Buddion Sylweddol fel ei fod yn nodi'r hyn a ddisgwylir o gyfreithwyr dan ganllawiau AGO a'r dystiolaeth a fydd ei hangen i hawlio gwaith paratoi PCE.</p> <p>Yn rhan o'r diwygiadau tymor hirach, rydym yn cynnig bod PCE a'r gwaith paratoi gofynnol yn cael ei ymgorffori yn rhan o'r cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu. Rydym yn ceisio barn ar a oes unrhyw bryderon ar y newidiadau hyn, a barn ar y ffordd orau o wneud hyn.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 10	Ymgysylltiad ar ôl cyhuddiad	
Pennod 9 CLAIR	<p>Annog cymaint o gyfathrebu ag sy'n bosibl rhwng yr heddlu/CPS ac amddiffyn cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, dylai cyllid cymorth cyfreithiol troseddol fod ar gael er mwyn talu am drafodaethau rhwng amddiffyn ac erlyniad cyn y gwrandawriad cyntaf hwnnw, gan gynnwys tâl am y gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer trafodaethau o'r fath, er enghraifft unrhyw geisiadau rhesymol ynghylch datgelu manylion cychwynnol yr achos erlyniad neu ddeunyddiau heb eu defnyddio. Dylai'r tâl fod ar sail yr un strwythur â chynllun presennol y Llys Ynadon</p>	<p>Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i archwilio'r mater hwn ymhellach gyda rhanddeiliaid. Fel cam nesaf hoffem geisio barn ar beth gall y Llywodraeth ei wneud i ddarparu'n briodol ar gyfer ymgysylltiad cynnar ac effeithlon ar ôl cyhuddiad.</p>
Argymhelliad 11	Y Llys Ynadon	
Pennod 10 CLAIR	<p>(1) Dylid cadw'r cynllun Llys Ynadon presennol, ond dylid cynyddu'r tâl yn unol â'r cynnydd cyffredinol i dâl a argymhellir uchod,</p> <p>(2) Dylai fod system o ffioedd safonol uwch ac is ar gyfer apeliadau a thraddodebau ar gyfer dedfrydau o'r Llys Ynadon i Lys y Goron,</p> <p>(3) Ni ddylid talu traddodebau ar gyfer dedfrydau ar lefel is na'r tâl cyfwerth am ble euog yn Llys y Goron</p> <p>(4) Rwy'n awgrymu er ystyriaeth (ond ni allaf argymhell yn ffurfiol) y dylai cymorth cyfreithiol ar gyfer diffynnydd sydd wedi cael traddodeb o ddedfryd i Lys y Goron ddibynnu ar feini prawf cymhwysedd Llys y Goron yn hytrach na meini prawf cymhwysedd y Llys Ynadon.</p>	<p>(1) Rydym yn ymgynghori ar gynnydd o 15% i ffioedd dan gynllun ffioedd y llys ynadon. Rydym yn ceisio barn ar beidio â diwygio'r cynllun ffioedd.</p> <p>Mae (2) a (3) yn ffioedd a delir dan yr LGFS ac fe'u trafodir yn y bennod LGFS.</p> <p>Trafodir (4) yn Arolwg Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol y Llywodraeth</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 12	Y Llys Ieuenctid	
Pennod 11 CLAIR	<p>(1) Dylai'r MOJ yn gyffredinol flaenoriaethu pennu adnoddau ychwanegol i'r Llys Ieuenctid, yn enwedig drwy godi'r ffioedd un ai i'r lefel a fyddai'n berthnasol pe byddai'r achos yn mynd i Lys y Goron, neu yn gyffredinol ynghylch ffioedd eraill y Llys Ynadon ac os oes tystysgrifau ar gyfer cyfreithwyr ar gyfer ymddangosiadau yn y Llys Ieuenctid.</p> <p>(2) Dylid datblygu system achredu briodol gyda hyfforddiant priodol i eiriolwyr sy'n ymddangos yn y Llys Ieuenctid.</p>	<p>Ymgynghori ar ddau opsiwn ffioedd:</p> <p>1) sicrhau bod tystysgrif ar gyfer cwnsler ar gael yn awtomataidd ar gyfer troseddau ditiadwy a all gael eu clywed yn y Llys Ieuenctid; neu</p> <p>2) cyflwyno ffi uwch yn y Llys Ieuenctid ar gyfer achosion ditiadwy ac achosion eraill all ddod i'r llys.</p> <p>Yn ogystal, ymgynghori ar a ddylid peidio â gwneud achrediad yn amod ffurfiol o gyfreithwyr yn derbyn ffioedd cynyddol ar gyfer gwaith ieuenctid oherwydd y risgiau.</p>
Argymhelliad 13	Ail-strwythuro'r Cynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithwyr	
Pennod 12	<p>Dylid ail-strwythuro'r LGFS, ar y ddealltwriaeth nad lleihau tâl cyfreithwyr yn gyffredinol yw'r bwriad, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Y bwriad yw ail-gydbwyso tâl o'r fath i adlewyrchu'n well y gwaith a wneir go iawn, a hwyluso'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd a argymhellir uchod.</p> <p>Dylid bwrw ymlaen ag ail-strwythuriad yr LGFS yn unol â'r hyn a ganlyn:</p> <p>(i) Dylid ymestyn yr egwyddor o ffioedd safonol is, ffioedd safonol uwch a ffioedd ansafonol yn y Llys Ynadon, ac sydd wedi'i argymhell uchod ar gyfer cyngor a chymorth mewn gorsafoedd heddlu, i'r LGFS gyda</p>	<p>Rydym yn cynnig cynnydd byrdymor o 15% i'r ffioedd safonol, pob ffi sefydlog, pob cyfradd fesul awr neu fesul eitem, a ffioedd arbenigol.</p> <p>Ar gyfer (i) a (ii) rydym yn gwahodd barn ar y diwygiad tymor hirach i'r LGFS, i gynnwys strwythur sylfaenol delfrydol tâl cyfreithwyr, rôl PPE o ran pennu ffioedd, a pha ddata ddylid ei</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
	<p>ffioedd gwahanol yn berthnasol i ddsbarthiadau gwahanol o droseddau fel sydd wedi'u nodi yn Nhabl Troseddau'r LGFS, yr olaf i'w symleiddio fel sy'n briodol.</p> <p>(ii) Dylai cytundeb ffioedd safonol ddisodli'r ffioedd sefydlog presennol ar gyfer apeliadau o'r Llys Ynadon a thraddodebau ar gyfer dedfrydau.</p> <p>(iii) Mae Rhan 3 o Atodlen 2 o'r Rheoliadau, yn darparu ar gyfer taliad ffi sefydlog le mae ple euog neu brawf ansefydlog yn dilyn etholiad cleientiaid, a dylid diddymu hyn.</p>	<p>gasglu i alluogi archwiliad trylwyr o waith paratoi cyfreithwyr.</p> <p>Rydym yn ymgynghori ar ddileu ffioedd sefydlog ar gyfer achosion "Etholedig heb ei Weithredu" (iii).</p>
Argymhelliad 14	Cynnydd cyffredinol i dâl dan AGFS	
Pennod 13 CLAIR	<p>Yn unol â'm hargymhelliad ym Mhennod 13, dylid cynyddu tâl eiriolwyr dan yr AGFS oddeutu £35 miliwn. Mae hyn yn cynnwys eiriolwyr bargyfreithwyr a chyfreithwyr (15%) yn rhannol drwy gynnydd cyffredinol mewn ffioedd, ac yn rhannol drwy ailstrwythuro'r AGFS fel sydd wedi'i argymhell isod.</p>	<p>Rydym yn ymgynghori ar gynnydd byrdymor o 15% i'r hyn a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pob ffi sylfaenol (crynodeb) (prawf/prawf ansefydlog, ple euog). 2. Pob ffi presenoldeb dyddiol mewn profion. 3. Pob ffi ar gyfer gwrandawiadau atafaeliad. 4. Ffioedd ystyriaeth sylfaenol ar gyfer deunyddiau heb eu defnyddio. 5. Cyfraddau talu fesul diwrnod ar gyfer gwrandawiadau dirmyg. 6. Pob ffi sefydlog.

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 15	Strwythuro'r AGFS	
Pennod 13 CLAIR	<p>Dylai ail-strwythuriad yr AGFS gynnwys cynnydd cyffredinol mewn ffioedd a'r newidiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Dylid adolygu'r berthynas rhwng y ffioedd briffio ar gyfer troseddau amrywiol, yn enwedig er mwyn pennu a yw ffioedd ar gyfer llofruddiaeth a throseddau rhywiol difrifol yn adlewyrchu'n briodol pwysigrwydd a chymhlethdod yr achos, ac a yw PPE yn cael effaith gwyrddoedig. (ii) Mwy o hyblygrwydd yn y darpariaethau'n llywodraethu gwaith paratoi arbennig fel bod modd talu'n briodol am waith. (iii) Cynyddu'r ffioedd ar gyfer paratoi arbennig ac ystyried deunyddiau heb eu defnyddio. (iv) Gwastraff amser yn paratoi lle does dim modd i eiriolwr ddod i brawf heb unrhyw fai arno ef neu hi. Dylid gallu hawlio hyn ym mhob achos o wastraff amser o leiaf 2 awr. (v) Dylid gallu hawlio gwaith a wneir yn rhesymol, a dylai fod yn daladwy o fewn 90 diwrnod heb angen aros am ganlyniad y prawf cyn hawlio taliad. (vi) Dylai ffioedd sefydlog dan yr AGFS gan gynnwys y rhai a ddarparwyd gan PTPH elwa ar y posibilrwydd o daliad gwell drwy hawliad am 	<p>Rydym yn ymgynghori ar ddiwygiad i'r AGFS er mwyn dilyn cynnydd byrdymor o 15% yn y cyllid, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Ar gyfer pa ddsbarthiadau o droseddau mae'r ffioedd cryno a'r trothwyon PPE yn adlewyrchu'n briodol cymhlethdod cyffredinol achosion ai peidio? (ii) Ai ymestyn paratoi arbennig yw'r ffordd orau o wahaniaethu rhwng achosion o ran tâl. (iv) A ddylai gwaith paratoi sydd wedi mynd yn wastraff fod ar gael mewn rhagor o

Rhif yr Argymhelliad a**Phennod CLAIR****Argymhelliad****Ymateb y Llywodraeth**

waith paratoi arbennig neu fel arall, er mwyn adlewyrchu'r gwaith sydd angen ei wneud yn yr amgylchiadau penodol.

- (vii) Dylai'r ffioedd ar gyfer materion atafaeliad elwa ar y cynnydd cyffredinol mewn ffordd sy'n cymell eiriolwyr i ymgymryd â'r gwaith
- (viii) Diddymu Rhan 4 o Atodlen 1 o'r Rheoliadau uchod, yn yr un modd â'r LGFS uchod.

amgylchiadau, ac os felly, beth ddylai'r meini prawf cymhwyso fod?

- (v) A ddylid cyflwyno dulliau sy'n galluogi taliadau dros dro i eiriolwyr gwaith Llys y Goron gael eu cyflwyno.
- (vi) Egwyddor a gweithredu taliadau uwch ar gyfer PTPHau/FCMHau a gwrandawiadau yng nghwrs achos.

Rydym yn cynnig gwaredu Rhan 4 o Atodlen 1 o'r Rheoliadau, gan olygu y bydd ffi sefydlog yn cael ei thalu mewn achosion "Etholedig nid wedi'u Gweithredu" (viii).

Rydym yn ymgynghori ar gynyddu cyfraddau a ffioedd ar gyfer Paratoi Arbennig deunyddiau heb eu defnyddiol (iii), a materion diddymu (vii), yn rhan o, ac yn unol â'r cynnydd cyffredinol o 15% i ffioedd AGFS.

Rydym hefyd yn ceisio barn ar strwythur cyffredinol yr AGFS a pha ddata ddylai gael ei gasglu i lywio archwiliad manylach o rôl yr eiriolwr.

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 16	Gwariant cymorth cyfreithiol troseddol arall	
Pennod 14 CLAIR	<p>Dylid gweithredu'r argymhellion a nodir ym Mhennod 14 uchod ynghylch apeliadau, cyfeiriadau at CCRC, IFFOau, cyfraith carcharau a ffioedd arbenigwyr yn enwedig o ran:</p> <p>(i) Y cynnydd cyffredinol i dâl fel sydd wedi'i argymhell</p> <p>(ii) Ailstrwythuro tâl am gyngor a chymorth ar waith CCRC gyda ffioedd is, uwch ac ansafonol.</p> <p>(iii) Ynghylch IFFOau, diwygio'r Rheoliadau i egluro'r sail statudol a darparu dull datrys anghydfodau.</p> <p>(iv) O ran cyfraith carcharau, ailstrwythuro gwaith cyngor a chymorth gyda ffioedd is, uwch ac ansafonol.</p>	<p>(i) Rydym yn ymgynghori ar gynyddu ffioedd cyfreithwyr ar gyfer VHCCau gan 15% ac ar gyfer ceisiadau i'r CCRC gan 15%.</p> <p>(ii) Rydym yn ceisio barn ar ddiwygio gwaith CCRC i ffioedd safonol.</p> <p>(iii) Rydym yn ymgynghori ar opsiynau gwahanol ar gyfer tâl eiriolwyr VHCCau gyda'r nod o dalu'n deg am waith a wneir.</p> <p>(iv) Rydym yn ymgynghori:</p> <p>A ddylai'r Llywodraeth ganolbwyntio ar gamau cychwynnol y broses droseddol a pheidio ag uchafu cyfraith carcharau ar hyn o bryd. Ar beth sydd wedi cael ei wneud i ddatrys problemau ynghylch mynediad i gleientiaid mewn carcharau a beth arall ellid ei wneud.</p> <p>A ddylid ailstrwythuro'r cynllun ffioedd ar gyfer cyngor a chymorth mewn achosion cyfraith carcharau.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 17	Amrywiaeth	
Pennod 15 CLAIR	<p>a. Rwy'n argymhell y dylai'r LAA weithio gyda'r MOJ a chynrychiolwyr cyfreithwyr i bennu pam fod y cydbwysedd rhyw o ran cyfreithwyr ar ddyletswydd yn ffafrio cyfreithwyr gwrywaidd, ac os felly, pa gamau ddylid eu rhoi ar waith i gyflawni cydbwysedd mwy cyfartal rhwng y rhywiau</p> <p>b. Dylai'r MOJ, y Cyngor Bargyfreithwyr a'r Bwrdd Safonau Bargyfreithwyr bennu i ba raddau, ac os felly pam fod gwahaniaethau'n bodoli rhwng yr incwm a ariennir yn gyhoeddus a enillir neu'r gwaith a wneir gan fargyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol ar sail rhyw neu ethnigrwydd, gyda'r nod o roi camau adferol ar waith, gan ystyried egwyddorion cydraddoldeb o ran gwariant arian cyhoeddus,</p> <p>c. Dylai'r MOJ, wrth weithio gyda'r Cyngor Bargyfreithwyr a'r Bwrdd Safonau Bargyfreithwyr ystyried, fel sy'n briodol, cefnogaeth bellach i fargyfreithwyr ifanc dan hyfforddiant gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth yn y proffesiwn ac os felly, sut gellid cyflawni hynny.</p>	<p>(i) Rydym eisiau profi beth all gael ei wneud i wneud gwaith cyfreithwyr ar ddyletswydd yn rhwyddach i'r rhai gyda chyfrifoldebau gofalu. Byddwn yn archwilio hyn drwy ein prawf PDS o ran darparu rhagor o gyngor o bell. Rydym hefyd yn ceisio barn ar beth arall all gael ei wneud i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y gwaith.</p> <p>(ii) Byddwn yn gofyn i'r Bwrdd Ymgynghori i archwilio'r mater hwn gyda'r rheoleiddwyr a'r cyrff cynrychioladol ar y rheng-flaen, er mwyn deall yn well beth all fod yn llywio'r gwahaniaethau hyn. Rydym hefyd yn ceisio tystiolaeth bellach ar y pwnc.</p> <p>(iii) Fel cam cyntaf tuag at ddeall a fyddai cefnogaeth bellach i fargyfreithwyr ifanc yn helpu i gefnogi amrywiaeth yn y proffesiwn, byddwn yn gofyn i'r Cyngor Bargyfreithwyr, y Bwrdd Safonau Bargyfreithwyr ac Ysbytai'r Brawdlys i ystyried pa gefnogaeth bellach y gallen nhw a siambrau ei darparu a'r ffordd orau o dargedu hyn.</p>

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 18	Aelodau CILEX fel cyfreithwyr ar ddyletswydd	
Pennod 8 CLAIR	Rwy'n argymhell bod yr LAA a'r MOJ yn adolygu'r darpariaethau ynghylch derbyn aelodau CILEX fel cyfreithwyr ar ddyletswydd	Mae'r Llywodraeth yn cefnogi rhagor o gyfleoedd i aelodau CILEX ledled y system gyfiawnder, ac yn awyddus i dorri rhwystrau o ran dod yn gyfreithwyr ar ddyletswydd. Byddwn yn trafod y mater hwn gyda Chymdeithas y Gyfraith (sy'n rhedeg y cynllun achredu perthnasol) a CILEX.

Rhif yr Argymhelliad a Phennod CLAIR	Argymhelliad	Ymateb y Llywodraeth
Argymhelliad 19	Yr LAA	
Pennod 15 CLAIR	<p>(i) Dylai'r MOJ ail-ystyried ac ail-fframio amcanion yr LAA fel mai prif amcanion yr LAA yw cefnogi gwydnwch y system cymorth cyfreithiol troseddol a lleihau biwrocratiaeth ddiangen, wrth gynnal rheolaeth gyfannol dros gostau</p> <p>(ii) Dylai'r MOJ, yr LAA a'r rhanddeiliaid perthnasol weithio drwy dermau presennol yr SCC a gweithdrefnau cysylltiedig yr LAA gyda'r nod o symleiddio a lleihau beichiau gweinyddol lle bo hynny'n briodol.</p> <p>(iii) Dylai'r LAA adolygu ei staff ar raglenni hyfforddiant gyda'r nod o weithredu dull mwy hyblyg o ran hawliadau am ad-daliadau a argymhellir yn yr Adolygiad hwn, wrth gadw mewn cof yr angen i wrthod hawliadau afresymol a diogelu trethdalwyr.</p> <p>(iv) Dylai'r LAA ystyried y materion penodol amrywiol a nodir yn yr Adroddiad hwn yn enwedig ynghylch DSCC (Pennod 8), dull gweithredu'r cynllun gorsafoedd heddlu gan gynnwys achredu (Pennod 8), y rheol 14 awr (Pennod 8), talu ffioedd eiriolwyr yn gynt (Pennod 13) ac ad-dalu ffioedd arbenigwyr yn y Llys Ynadon (Pennod 14), gyda'r nod o bennu, gyda'r MOJ, pa gamau gweithredu all fod yn briodol.</p>	<p>Mae adolygiadau presennol o amcanion LAA gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol a phroses ALB Swyddfa'r Cabinet.</p> <p>Cynnig adolygiad dan arweiniad LAA o'r SCC er mwyn ystyried diwygiad yn CLAIR</p> <p>Parhau i ddefnyddio rhaglenni hyfforddiant staff LAA a dulliau adolygu rhaglenni hyfforddiant staff LAA presennol a dulliau adolygu.</p> <p>Ymgynghori ar welliannau i'r DSCC i'r dyfodol, gan gynnwys digideiddio.</p> <p>Gofyn i'r Bwrdd Ymgynghorol i ystyried achrediad.</p> <p>Rhodddwyd newidiadau ar waith i'r rheol 14 awr yn ddiweddar.</p>

Atodiad B: Cryndodeb o'r Ymgynghoriad

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Bwrdd Ymgynghorol	15	2	<ol style="list-style-type: none">1. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gael Bwrdd Ymgynghorol? Eglurwch eich rhesymau dros eich atebion.2. Oes gennych chi unrhyw farn ar beth ddylai Cylch Gorchwyl y Bwrdd Ymgynghorol ei gynnwys?3. Ydych chi'n credu y gellid defnyddio strwythurau llywodraethu presennol y system gyfiawnder troseddol (megis y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol) fel bod dim angen Bwrdd Ymgynghorol? Rhowch resymau.

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Angen heb ei fodloni ac arloesedd	15	2	<p>4. Beth yw eich barn ar ein cynnig i ymestyn y Gwasanaeth Amddiffyn Cyhoeddus ar sail gyfyngedig i ddarparu capasiti ychwanegol (a faint o gapasiti) neu lle mae gan y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol angen sydd heb ei fodloni o bosibl, risg o farchnadoedd yn methu neu'n cael eu gohirio neu o bosibl lle mae potensial i gynnig gwerth gwell am arian - er enghraifft darparu cyngor o bell mewn gorsafoedd heddlu, yn enwedig mewn mannau gwledig, a bod â phresenoldeb yn y farchnad mewn Achosion Cost Uchel iawn (VHCCau)?</p> <p>5. Beth yw eich barn ar y manteision ac anfanteision o ofyn i ddarparwr fod â swyddfa corfforol i fod yn rhan o gynllun dyletswydd?</p> <p>6. Oes gennych chi unrhyw farn ar sut gall ffurfiau darparwyr nad ydynt yn draddodiadol a ffyrdd newydd o weithio megis modelau holistaidd a darparwyr nid er elw chwarae rhan yn y farchnad amddiffyn troseddol?</p>
Rhaglenni grant hyfforddiant ac achrediad	15	2	<p>7. Beth yw eich barn ar raglen grant hyfforddiant ac achrediad? Sut gall hyn ei gwneud hi'n fwy deniadol mynd ar ôl gyrfa ym maes amddiffyn troseddol?</p> <p>8. Sut gall y Llywodraeth gefnogi orau cyfreithwyr i gael hawliau cynulleidfa uwch?</p>
Gwahaniaeth yn incwm bargyfreithwyr	15	2	<p>9. Yn eich barn chi, ydych chi'n credu fod bargyfreithwyr benywaidd yn fwy tebygol o gael achosion ffioedd is, megis RASSO? Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Amrywiaeth	15	2	<p>10. A fyddai grantiau hyfforddiant i siambrau cymorth cyfreithiol troseddol yn helpu yn eich barn chi gyda materion recriwtio a chadw staff? Os felly, sut gellid targedu menter o'r fath er mwyn cefnogi amrywiaeth?</p> <p>11. Beth ydych chi'n meddwl gall y Llywodraeth ei wneud i wella amrywiaeth yn y proffesiynau annibynnol?</p> <p>12. Beth ydych chi'n meddwl gall y cyrff proffesiynol ei wneud i wella amrywiaeth yn y proffesiynau annibynnol?</p> <p>13. Pa dystiolaeth sydd gennych chi o rwystrau y mae grwpiau gwahanol yn eu hwynebu o ran dechrau ar yrfaedd ym maes gwaith amddiffyn troseddol yn gyffredinol?</p> <p>14. Pa dystiolaeth sydd gennych o rwystrau eraill y mae menywod yn eu hwynebu yn gweithio o fewn cynlluniau dyletswydd y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes wedi'u nodi? Faint o wahaniaeth fyddai cynyddu darpariaeth gyngor o bell yn ei gael o ran gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau? Oes unrhyw beth arall y dylem fod yn ei roi ar waith i fynd i'r afael â hyn?</p> <p>15. Beth ydych chi'n meddwl all fod yn llywio'r gwahaniaeth mewn incwm yn y Bar troseddol a nodwyd yn yr adolygiad? Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?</p> <p>16. Yn eich barn chi, beth arall all cwmnïau cyfreithwyr a siambrau ei wneud i gefnogi'r rhai o gefndiroedd amrywiol sy'n dechrau ar yrfaedd ym maes amddiffyn troseddol?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Materion Ansawdd	8	2	<p>17. Sut gall y Llywodraeth helpu'r proffesiynau i adolygu'r cydbwysedd rhwng y mesurau ansawdd amrywiol i leihau'r costau gweinyddol, wrth sicrhau nad yw'r ansawdd yn gwaethygu?</p> <p>18. Sut gall y Llywodraeth ddylunio'r meini prawf cymhwyso orau ar gyfer unrhyw restri'r Arglwydd Ganghellor o eiriolwyr amddiffyn troseddol i sicrhau bod eiriolwyr ar y rhestr yn frwd dros reoli ansawdd, datblygiad proffesiynol ac argaeledd cyson ar gyfer gwaith?</p>
Technoleg	2	2	<p>19. Sut ac i ba raddau y mae technoleg, gan gynnwys technoleg o bell, yn cefnogi ffyrdd effeithlon ac effeithiol o weithio yn y system gyfiawnder troseddol?</p>
Ymgysylltiad cyn cyhuddiad: gwaith paratoi	9	3	<p>20. Ydych chi'n cytuno y byddai'r cynnig dan senario 1 yn galluogi i waith paratoi gael ei dalu'n deg? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.</p> <p>21. Ydych chi'n cytuno y byddai'r cynnig dan senario 2 yn galluogi i waith paratoi gael ei dalu'n deg? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.</p> <p>22. Oes unrhyw ffactorau eraill, heblaw am dâl, sy'n atal ymarferwyr rhag cyflawni PCE? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.</p> <p>23. Yn ein Hasesiad Effaith, rydym wedi tybio'n ddangosol y byddai gwaith paratoi'n cael ei dalu ar gyfartaledd o ddwyawr fesul achos gyda defnydd o hyd at 6% (neu hyd at 32k o achosion). Ydych chi'n credu fod y tybiaethau hyn yn rhesymol? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Ymgysylltiad cyn cyhuddiad: prawf buddion digonol	9	3	<p>24. Ydych chi'n cytuno gyda'r diwygiadau arfaethedig i'r 'Prawf Buddion Digonol'? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.</p> <p>25. Oes gennych chi gynigion amgen ar gyfer diwygio'r 'Prawf Buddion Digonol' dan senario 2?</p> <p>26. Ydych chi'n credu fod paragraff 4 o Atodiad B yn 'Canllawiau Datgelu' y Twrnai Cyffredinol hefyd yn adlewyrchu'r math o waith paratoi sy'n debygol o gael ei wneud cyn cytundeb PCE?</p> <p>27. Oes unrhyw fathau eraill o waith paratoi ddylai gael eu hariannu cyn cytundeb PCE yn eich barn chi?</p>
Buddsoddi i ffioedd gorsafoedd heddlu	8	3	<p>28. Oes gennych chi unrhyw farn ar ein cynnig i gynyddu ffioedd gorsafoedd heddlu gan 15%?</p>
Ffioedd gorsafoedd heddlu safonol	7	3	<p>29. Pe byddem yn mynd ar ôl opsiwn 1, pa nodweddion o achos ydych chi'n credu ddylai gael eu defnyddio fel tystiolaeth o gymhlethdod: (a) amser a dreulir; (b) math o achos - e.e. lladrad, llofruddiaeth; (c) math o achos - e.e. crynodeb yn unig, y naill ffordd neu'r llall; ditiadwy; (d) cymhlethdodau anomalaidd - e.e. cleient agored i niwed, problemau cyffuriau; (e) cyfuniad o'r rhai blaenorol; (f) arall? Pam?</p> <p>30. A fyddai angen i chi newid eich prosesau cofnodi a bilio presennol er mwyn hawlio ffioedd safonol a gaiff eu pennu drwy gyrraedd trothwy 'amser a dreulir' ar achos?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Y ddau opsiwn ar gyfer diwygio strwythurol gorsafoedd heddlu	8	3	<p>31. Ydych chi'n cytuno y dylem archwilio'r mathau o ddiwygio strwythurol a nodir uchod, o fewn yr un amlen gost, er mwyn talu am y gwaith a wneir mewn gorsafoedd heddlu yn fwy cywir?</p> <p>32. Os ydych chi'n cytuno y dylem archwilio'r diwygiad hwn, pa opsiwn (1 neu 2) ydych chi'n credu fyddai'n cyflawni'r nod hyn yn well o ran talu am y gwaith a wneir drwy wahaniaethu rhwng cymhlethdod achosion, wrth leihau'r baich gweinyddol? Pam? Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill o ran diwygio?</p> <p>33. Er mwyn galluogi unrhyw ddiwygiadau strwythurol, byddai angen i ni gasglu nifer fawr o wybodaeth gan ddarparwyr ynghylch amser sy'n cael ei dreulio a nodweddion eraill o achosion. Fel darparwr, a fyddech chi'n gallu rhannu'r wybodaeth hon o'ch systemau presennol, neu drwy addasu eich cofnodion? Oes unrhyw rwystrau penodol rydych chi'n eu rhagweld o ran darparu'r wybodaeth hon mewn modd dibynadwy?</p> <p>34. Ydych chi'n credu y dylai'r ffi is (un ai dan opsiwn 1 neu 2, un ai'r ffi safonol is neu'r ffi sefydlog) gyfrif am 80% o achosion? Pam?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Lefel uwch ymarferwyr ac uno ffioedd mewn gorsafoedd heddlu	8	3	<p>35. Sut gellid diwygio'r cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu i sicrhau bod achosion cymhleth yn cael y lefel gywir o fewnbwn gan ymarferydd digon profiadol?</p> <p>36. A ddylid sicrhau rhagor o gymhellion i uwhc ymarferydd ymgymryd ag achosion cymhleth yn yr orsaf heddlu? Pam? Pa effaith allai hyn ei gael?</p> <p>37. Ydych chi'n cytuno y dylai'r cynllun ar ei newydd wedd gael ei ddylunio ar gyfraddau tebyg, yn hytrach na'r cyfraddau lleol presennol? Gall hyn fod ar lefel genedlaethol neu gyfraddau Llundain/y tu allan i Lundain. Rhowch resymau am eich ateb.</p>
Diwygio tymor hirach ar gyfer ymgysylltiad cynnar - cynnwys PCE yn y Cynllun Ffioedd Gorsafoedd Heddlu	9	3	<p>38. Ydych chi'n cytuno y dylai'r PCE gael ei dalu dan y cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu yn y tymor hirach fel elfen benodol ar waith gorsafoedd heddlu? Rhowch resymau dros eich ateb.</p> <p>39. Sut ydych chi'n credu y gallai'r PCE weithio orau o fewn y cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu er enghraifft fel ffi yn rhan ohono neu'n unigol, ac ar sail oriau a dreulir ai peidio, gan nodi ein hopsiynau ar gyfer diwygio ehangach?</p>
Gwella nifer y bobl sy'n manteisio ar gyngor cyfreithiol yn y ddalfa	8	3	<p>40. Pa garfannau o ddefnyddwyr fyddai'n elwa fwyaf ar fod yn rhan o gyflwyniad estynedig y treial / beth ddylen ni flaenoriaethu?</p>
Aelodau CILEX fel cyfreithwyr ar ddyletswydd	8	3	<p>41. Pa newidiadau, os o gwbl, fyddai eu hangen er mwyn ymgorffori unrhyw gytundeb ar gywerthedd i weithrediad y cynllun cyfreithwyr ar ddyletswydd?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Canolfan Alwadau Cyfreithwyr Amddiffyn	15	3	42. Sut arall allwn ni wella'r DSCC, er enghraifft a fyddai rhagor o ddigideiddio a gwneud prosesau asiantaethau cymorth cyfreithiol yn awtomataidd yn gwella ansawdd y gwasanaeth?
Ymgysylltiad ar ôl cyhuddiad	9	4	43. Ydych chi'n credu fod angen newid y ffordd y mae'r gwaith yn cael ei dalu rhwng y cyfnod ar ôl y cyhuddiad a'r gwrandawriad cyntaf yn y llys ynadon? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb. 44. Ydych chi'n cynnal ymgysylltiad ar ôl cyhuddiad yn rheolaidd? Ydych chi'n cofnodi'r gwaith hwn er mwyn hawlio ffi dan y cynllun llys ynadon? 45. Ydych chi'n wynebu unrhyw faterion sy'n eich atal rhag cynnal ymgysylltiad ar ôl cyhuddiad cyn y gwrandawriad cyntaf yn y llys ynadon? Eglurwch y math o faterion rydych yn eu hwynebu. 46. Os ydych wedi profi problemau gydag ymgysylltu ar ôl cyhuddiad, pa fath o ddatrysiadau ydych chi'n credu ellid eu rhoi ar waith? Pa newidiadau sydd angen cael eu gwneud a chan bwy?
Buddsoddi i ffioedd llysoedd ynadon	10	4	47. Rydym yn cynnig cynyddu ffioedd y llysoedd ynadon gan 15%. Oes gennych chi farn ar hyn?
Diwygio strwythurol y cynllun ffioedd llysoedd ynadon	10	4	48. Ydych chi'n cytuno nad oes angen diwygiad strwythurol i'r cynllun ffioedd llysoedd ynadon ar hyn o bryd? Rhwng resymau dros eich ateb.

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Buddsoddi i gynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol	11 ac 12	5	<p>49. Ydych chi'n cytuno gyda'n dull arfaethedig o fuddsoddi byrdymor yn yr LGFS a'r AGFS fel ag y maent ar hyn o bryd, ac yna ystyriaeth bellach o unrhyw opsiynau diwygio tymor hirach? Rhwch resymau dros eich ateb.</p> <p>50. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnydd arfaethedig o 15% i ffioedd sylfaenol LGFS, ffioedd sefydlog a chyfraddau fesul awr, gan nodi'r cyllid pellach ar gyfer diwygio'r LGFS? Nodwch eich rhesymau.</p> <p>51. Ydych chi'n cytuno gyda chynigion y Llywodraeth i'r cynnydd o 15% i bob elfen dâl sy'n rhan o'r AGFS? Nodwch eich rhesymau.</p> <p>52. Ydych chi'n cytuno y dylid diddymu'r ffi sefydlog sy'n daladwy ar gyfer achosion "Etholedig nid wedi'u Gweithredu" dan yr LGFS a'r AGFS, gan arwain at y ffaith y bydd yr achosion yn denu'r tâl ple euog perthnasol neu'r tâl prawf wedi'i gwahanu? Nodwch eich rhesymau.</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Gwella effeithiolrwydd LGFS o ran talu am faterion gwirioneddol	12	5	<p>53. Ydych chi'n ystyried disodli ffioedd sylfaenol o fewn yr LGFS gyda strwythur ffioedd sylfaenol, yn debyg i'r cynllun llys ynadon, mewn egwyddor yn ffordd well o adlewyrchu gwaith paratoi cyfreithwyr a lleihau dibyniaeth ar y procsi PPE? Rhowch resymau dros eich ateb.</p> <p>54. Ydych chi'n cytuno fod angen diwygio PPE ac y dylid ystyried hyn ymhellach wedi inni bennu sail dystiolaeth? Rhowch resymau dros eich ateb.</p> <p>55. Yn eich barn chi, sut ddylai'r LGFS hyrwyddo ymgysylltiad cynt a datrys achosion heb gyflwyno cymhellion a fyddai'n cyfaddawdu buddion cyfiawnder?</p> <p>56.</p>
Gwella'r gwasanaeth ac asesiad PPE	12	5	<p>57. Pa welliannau hoffech chi eu gweld o ran y ffordd y mae tystiolaeth (yn enwedig yn electronig) yn:</p> <p>a) Cael ei gyflwyno i'r tîm amddiffyn?</p> <p>b) Wedi'i ddiffinio mewn Rheoliadau?</p> <p>c) Wedi'i feintoli wrth gael ei asesu?</p>
Gwaith atafael	12	5	58. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gynyddu ffioedd atafael gan 15%?
Ffioedd safonol ar gyfer apeliadau i Lys y Goron a thraddodebau ar gyfer dedfrydau	12	5	59. A fyddech chi'n falch o weld ffioedd sefydlog LGFS ar gyfer apeliadau i Lys y Goron a thraddodebau ar gyfer dedfrydau'n cael eu disodli gyda threfn ffioedd safonol, yn debyg i'r cynllun llys ynadon? Rhowch eich rhesymau.

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Deall gwaith cyfreithwyr Llys y Goron	12	5	<p>60. Pa ddata newydd fydddech chi'n argymhell i'r MOJ ei gasglu er mwyn adeiladu darn o'r tasgau a'r amser mae cyfreithwyr yn ei dreulio yn paratoi ar gyfer achosion Llys y Goron ac er mwyn hwyluso'r broses o fireinio'r LGFS? Ydych chi'n cofnodi'r data yma, ac a fydddech chi'n fodlon rhannu'r data gyda ni?</p> <p>61. Pa ffactorau sy'n dylanwadu'r amser rydych chi'n ei dreulio yn paratoi ar gyfer prosesau yn Llys y Goron, apeliadau i Lys y Goron a thraddodebau ar gyfer dedfrydau?</p>
Strwythur sylfaenol AGFS	13	5	<p>62. Ydych chi'n credu fod y model AGFS presennol yn ddelfrydol ar gyfer talu am eiriolaeth Llys y Goron? Pa newidiadau hoffech chi eu gweld? Nodwch eich rhesymau.</p> <p>63. Rydym yn cynnig diwygio o fewn yr amlen gost bresennol. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion, byddem yn falch o weld barn ar elfennau neu dasgau o fewn eiriolaeth Llys y Goron a ddylid eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid.</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Ategu'r ffi sylfaenol neu'r ffi gwrandawriad lle mae'r gwaith paratoi gofynnol yn fwy na'r arfer	13	5	<p>64. Ydych chi'n credu mai ymestyn argaeledd y taliadau Paratoi Arbennig yw'r ffordd orau o dalu ar gyfer achosion (neu wrandawiadau o fewn achosion) lle bo'r gwaith paratoi gofynnol o ran eiriolaeth yn fwy na'r arfer? Rhowch resymau dros eich ateb.</p> <p>65. Ydych chi'n cytuno gyda'r argymhelliad y dylai taliadau ffioedd sefydlog ar gyfer gwrandawiadau yng nghwrs achos elwa ar bosibilrwydd o estyniad? Os felly, o dan ba amgylchiadau fyddai estyniad yn berthnasol?</p> <p>66. A fydddech chi'n croesawu cynllun ffioedd ar gyfer eiriolaeth sy'n lleihau'r pwysoliad yn ôl ffioedd sylfaenol o blaid tâl lle bo meini prawf cymhlethdod yn cael eu bodloni a/neu dasgau gweithdrefnol cyfrinachol wedi cael eu cwblhau? Nodwch eich rhesymau.</p> <p>67. Ydych chi'n credu y gellid talu am achosion amlinellol yn decach drwy ddiwygio'r AGFS presennol, e.e. addasu trothwyon PPE, lle mae modd hawlio Paratoi Arbennig y tu mewn iddynt neu'r lefel berthynol o ffioedd sylfaenol? Os felly, ar gyfer pa ddosbarthiadau o droseddau ydych chi'n credu mae'r darpariaethau presennol yn anomalaidd?</p> <p>68. Oes unrhyw fodelau ar gyfer tâl eiriolaeth Llys y Goron nad ydym wedi'u hystyried yn eich barn chi? Rhowch fanylion.</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Data ac ymchwil pellach	15	5	<p>69. Pa ddata newydd fydddech chi'n argymhell i'r MOJ ei gasglu er mwyn creu darlun o'r tasgau a'r amser gofynnol i eiriolwyr wrth baratoi ar gyfer achosion Llys y Goron, ac er mwyn hwyluso diwygiad yr AGFS? Ydych chi'n cofnodi'r data yma, ac a fydddech chi'n fodlon rhannu'r data gyda ni?</p> <p>70. Pa ffactorau sy'n cynyddu cymhlethdod gwaith yr eiriolwyr ym mhrosesau Llys y Goron?</p> <p>71. Yn eich barn chi, sut ddylai'r AGFS hyrwyddo ymgysylltiad cynt a datrys achosion heb gyflwyno cymhellion all gyfaddawdu buddion cyfiawnder?</p>
Taliad uwch ar gyfer PTPHau/FCMHau "Sylweddol"	13	5	<p>72. Ydych chi'n credu y dylai eiriolwyr allu hawlio ffi uwch ar gyfer presenoldeb mewn PTPH neu FCMH lle mae cynnydd ystyrllon wedi'i gyflawni yn yr achos? Os felly, pa feini prawf, yn eich barn chi, ddylid eu bodloni er mwyn i'r math yma o wrandawriad gael ei ystyried yn effeithiol? Nodwch eich rhesymau.</p>
Taliadau am Wastraff Amser yn Paratoi	13	5	<p>73. Ydych chi'n cefnogi'r egwyddor o sicrhau bod taliadau am wastraff amser yn paratoi ar gael mewn mwy o achosion? Os felly, o dan pa amgylchiadau fyddai modd ei hawlio? Rhowch resymau.</p> <p>74. Yn eich barn chi, pa feini prawf achos ddylid eu bodloni er mwyn caniatáu hawliad am daliad gwastraff amser (e.e. hyd y prawf, swm y PPE, oriau gwaith paratoi)?</p>
Traws-archwiliad Adran 28 wedi'i recordio ymlaen llaw	5	5	<p>75. A fydddech chi'n fodlon ein helpu i gasglu data ar y gwaith ychwanegol ynghlwm wrth achos gyda gwrandawriad a.28?</p> <p>76. Sut ydych chi'n credu y dylid ail-fodelu'r cynllun ffioedd er mwyn adlewyrchu gwaith a.28?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Ffioedd Llys Ieuenctid	11	6	<p>77. O ystyried y cynigion ffioedd ym mharagraffau 186 i 187, pa rai ydych chi'n credu fyddai'n adlewyrchu orau difrifoldeb a chymhlethdod peth gwaith Llys Ieuenctid a chyflawni gwelliannau i gyngor cyfreithiol i blant, wrth sicrhau gwerth da i drethdalwyr?</p> <p>78. Pa gynnig ydych chi'n credu fyddai'n cynnig cynrychiolaeth cyfreithiol o safon well i blant yn y Llys Ieuenctid?</p> <p>79. Os ydych chi'n gwrthwynebu'r opsiynau a nodwyd neu'n awyddus i gynnig opsiwn amgen, eglurwch eich cynnig, y rhesymeg a'r dystiolaeth y tu ôl iddo, a chofiwch gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol all godi o bosibl.</p>
Achrediad gwaith Ieuenctid	11	6	80. Ydych chi'n cytuno na ddylai achrediad fod yn amod ffurfiol o gyfreithwyr yn derbyn ffioedd cynyddol am waith Ieuenctid? Rhowch resymau.
Buddsoddi i VHCCau	14	7	81. Rydym yn cynnig cynyddu ffioedd i gyfreithwyr sy'n cyflawni VHCC gan 15%. Oes gennych chi farn ar hyn? Eglurwch eich resymau.
Cynigion Ffioedd Sefydlog Unigol (IFFOau): Argymhelliad CLAIR	14	7	<p>82. Ydych chi'n cefnogi'r eglurhad pellach o IFFOau mewn Rheoliadau? Pam?</p> <p>83. A fydddech chi'n credu bod dull datrys anghydfodau cyn llofnodi contract yn ddefnyddiol? Os felly, ar ba ffurf ydych chi'n credu y gallai dull fel hyn fod? Pam?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Cynigion Ffioedd Sefydlog Unigol (IFFOau): Mynd yn ôl at Ddarpariaeth Gytundebol	14	7	<p>84. A fyddech chi'n gefnogol o fynd yn ôl at y ddarpariaeth contract achos unigol ar gyfer VHCCau, yn hytrach na'r cynllun IFFO? Pam?</p> <p>85. A fyddai dychwelyd at ddarpariaeth gytundebol yn ffuddiol i weithrediad a rheolaeth achos effeithiol yn yr achosion hyn? Pam?</p> <p>86. A fyddech chi'n ystyried unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth contract achosion unigol cyn symud yn ôl? Os felly, pa newidiadau?</p>
Cynigion Ffioedd Sefydlog Unigol (IFFOau): Addasu'r Cynllun	14	7	<p>87. Pa egwyddorion sydd angen eu newid dan y ddarpariaeth bresennol er mwyn adlewyrchu'r gwaith a wneir mewn ffordd deg?</p> <p>88. Os bydd y ddarpariaeth IFFO yn cael ei chadw, beth ydych chi'n credu fyddai'n ddull rhesymol o ran negodi a thalu ffioedd sefydlog?</p>
Cynnwys VHCCau mewn cynlluniau ffioedd	14	7	<p>89. A fyddech chi'n cefnogi VHCCau yn cael eu cynnwys yn yr LGFS/AGFS unwaith y cânt eu diwygio os ydynt yn seiliedig ar brocsi sy'n adlewyrchu'n well y gwaith a wneir er mwyn talu amdano'n decach? Pam?</p> <p>90. Oes unrhyw ystyriaethau penodol ynghylch VHCCau sydd eu hangen wrth ddiwygio'r LGFS/AGFS? Pa rai?</p>
Buddsoddi i Ffioedd ar gyfer Gwaith CRRC	14	7	<p>91. Rydym yn cynnig cynyddu ffioedd i gyfreithwyr sy'n gwneud gwaith CCRC gan 15%. Oes gennych chi farn ar hyn?</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Diwygio'n Strwythurol Ffioedd ar gyfer Gwaith CRRC	14	7	<p>92. Ydych chi'n meddwl bod angen diwygio'r cynllun ffioedd ar gyfer cymorth cyfreithiol ar gyfer ceisiadau i'r CRRC? Pam?</p> <p>93. Os ydych eisoes yn gwneud gwaith ceisiadau CRRC, beth yw rhai o'r heriau gyda'r gwaith hwn?</p> <p>94. Oes unrhyw ffactorau heblaw am dâl sy'n eich atal rhag gwneud gwaith ceisiadau CRRC? Pa rai?</p> <p>95. Oes llinell derfyn clir o ran gwaith a ddylai gael ei gyflawni gan ddarparwr y gwasanaethau cymorth cyfreithiol a'r hyn y dylai'r CRRC ei wneud?</p> <p>96. Ydych chi'n cofnodi'n rheolaidd ac yn gywir yr amser sy'n cael ei dreulio ar y gwaith yma?</p>
Argymhelliad CLAIR ar gyfer diwygiad CRRC	14	7	<p>97. Ydych chi'n cefnogi'r diwygiad i ffioedd safonol, o ystyried unrhyw faich gweinyddol a fyddai'n rhan o hawlio'r ffioedd hynny? Pam?</p> <p>98. Ydych chi'n credu y byddai diwygio'r cynllun ffioedd yn cymell darparwyr i fynd ati gyda'r gwaith yma? Pam?</p>
Cadw'r Ddarpariaeth CRRC Presennol gyda'r Ffioedd Uwch	14	7	<p>99. Ydych chi'n credu y byddai cadw'r cynllun ffioedd presennol unwaith y mae'r ffioedd wedi'u codi'n cymell darparwyr i fwrw ymlaen â'r gwaith? Pam?</p>
Buddsoddi i ffioedd cyfraith carcharau	14	7	<p>100. A ddylai'r Llywodraeth ganolbwyntio ar gamau cynnar y broses droseddol, a pheidio ag uchafu cyfraith carcharau ar hyn o bryd? Eglurwch eich rhesymau.</p>

Pwnc	Cyfeirnod Pennod CLAIR	Ymateb y Llywodraeth i Gyfeirnod Pennod CLAIR	Cwestiynau
Gwaith cyfraith carcharau	14	7	<p>101. Beth arall all y Llywodraeth ei wneud i fwrw ymlaen â phroblemau o ran mynediad i gleientiaid yn y carchar?</p> <p>102. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ail-strwythuro'r cynllun ffioedd ar gyfer cyngor a chymorth mewn achosion cyfraith carcharau?</p> <p>103. Pa ddata fyddai angen ei gasglu er mwyn gweithredu'r diwygiad hwn?</p>
Ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol eraill	14	7	<p>104. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gynyddu'r ffioedd ar gyfer y meysydd hyn gan 15%?</p>
Asesiad Effaith	Amh.	8	<p>105. Ydych chi'n cytuno gyda'r tybiaethau a'r deilliannau a nodir yn yr Asesiad Effaith? Nodwch ydw/nac ydw a rhowch resymau. Rhannwch unrhyw dystiolaeth empiraidd ynghylch y cynigion yn y ddogfen hon.</p>
Cydraddoldeb	Amh.	9	<p>106. O'ch profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion gyda nodweddion gwarchodedig a allai gael eu heffeithio'n benodol, yn bositif neu'n negyddol, gan y cynigion yn y papur yma? Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu unrhyw fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi eich barn.</p> <p>107. Beth ydych chi'n credu yw'r effeithiau ar gydraddoldeb i unigolion gyda nodweddion gwarchodedig o ran pob cynnig? Oes unrhyw fesurau lleddfu y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Nodwch dystiolaeth a rhesymau.</p>